



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Nodyn cyfarfod

Enw'r prosiect	Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr
Cyfeirnod y ffeil	EN010112
Statws	Terfynol
Awdur	Yr Arolygiaeth Gynllunio
Dyddiad	2 Mawrth 2022
Cyfarfod ag	Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited
Lleoliad	Microsoft Teams
Amcanion y cyfarfod	Cyfarfod diweddarau'r prosiect
Cylchrediad	Pawb a oedd yn bresennol

Crynodeb o'r prif bwytiau a drafodwyd a'r cyngor a roddwyd

Rhoddodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) wybod y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan, yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008 (DC2008). Ni fyddai unrhyw gyngor a roddir dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai ymgeiswyr (neu bobl eraill) ddibynnu arno.

Dogfennau drafft ac ymateb yr Arolygiaeth – Holi ac ateb / Manylion

Darparodd yr Ymgeisydd gyfres o ddogfennau drafft i'r Arolygiaeth i'w hadolygu cyn cyflwyno'r cais. Gofynnodd yr Ymgeisydd am bwytiau penodol o adborth ar y dogfennau drafft a gafwyd gan yr Arolygiaeth, sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodiad i'r nodyn o gyfarfod hwn.

Cyf Rhif 5: Byddai rhestr yr ymgynghoreion a42 yn cael ei golygu a gofynnodd yr Ymgeisydd sut byddai'r Arolygiaeth yn gwirio'r rhestr wrth ei derbyn. Amlygodd yr Arolygiaeth ei fod yn ofynnol i'r Ymgeisydd sicrhau ei fod wedi cwblhau'r gwiriad cyn cyflwyno. Gallai'r Arolygiaeth ofyn am restr heb ei golygu pe byddai unrhyw bryderon yn cael eu codi yn ystod y gwiriadau derbyn.

Rhoddodd yr Ymgeisydd wybod i'r Arolygiaeth y cynhaliwyd ymgynghoriad wedi'i dargedu o 1 Chwefror 2022 hyd 2 Mawrth 2022, o ganlyniad i newidiadau i Derfynau'r Gorchymyn mewn perthynas â chynigion newydd ar gyfer caeadle adeiladu dros dro ger y lanfa a'r mynedfeydd. Roedd astudiaethau technegol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn mynd rhagddynt. Dim ond un caeadle adeiladu a fyddai'n cael ei ddewis ar gyfer y gwaith adeiladu terfynol. Roedd lleiniau ychwanegol o dir ar hyd llwybr y ceblau, gorffeniadau i lwybr y ceblau ac ardaloedd ychwanegol ar gyfer mesurau lliniaru. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys sesiynau galw heibio, postdafliaid, cylchlythyrau a briffiau i gynghorwyr lleol. Rhoddodd yr Ymgeisydd wybod y byddai'r manylion a'r ymatebion yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori. Dywedodd nad oedd

newidiadau i Derfynau'r Gorchymyn yn newid unrhyw asesiadau, casgliadau na deunydd yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol yn sylweddol.

Cyf. Rhif 16: Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai'n dyrannu dynodwyr unigryw i bob ymgynghorai a byddai tabl yn cynnwys adborth fesul pwynt a'r camau a gymerwyd yn cael ei gynnal mewn atodiad i'r Adroddiad Ymgynghori, ynghyd ag adroddiad ar y dull cyffredinol yng nghorff yr adroddiad.

Cyf. Rhif 24: Cadarnhaodd yr Ymgeisydd na fyddai'n defnyddio dull gwahanol o gaffael gorfodol ar gyfer yr elfennau artraeth i ffermydd gwynt alltraeth eraill cyhyd ag y byddai hawliau cyffredinol yn cael eu ceisio i fynd at y tir a gosod y ceblau â hawliau parhaol penodedig, yn ôl y gofyn.

Cyf. Rhif 30: Nododd yr Ymgeisydd yr arfer datblygedig ac y bu'n rhan o Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) Ffatri Cynhyrchu Hyblyg Thurrock, a oedd yn cynnwys rhywfaint o eiriad defnyddiol.

Cyf. Rhif 42: Byddai'r Ymgeisydd yn darparu crynodeb o'r mesurau lliniaru fel rhan o'r cais, a gofynnodd sut byddai hyn yn cyd-fynd â'r DCO a'r Memorandwm Esboniadol. Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai'r holl ddogfennau gael eu croesgyfeirio ac y dylid darparu tabl o'r mesurau lliniaru yn y Datganiad Amgylcheddol (DA). Dylai'r Memorandwm Esboniadol egluro sut caiff y mesurau lliniaru y dibynnir arnynt yn y DA a'r tabl mesurau lliniaru eu sicrhau yng ngofynion y DCO. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio'r sail resymol ar gyfer y gofynion.

Cyf. Rhif 44: Rhoddodd yr Ymgeisydd wybod bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi adolygu'r gofynion cyflawni ond nad oedd wedi cytuno'n benodol i ymgymryd â'r rôl gyflawni. Gofynnodd yr Arolygiaeth am unrhyw ddiweddariad ar safbwynt yr Awdurdod Lleol ar y mater hwn yn y cais.

Cyf. Rhif 45: Dehongliad yr Ymgeisydd o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol) 2017 oedd bod cyflawni gofynion y DCO yn rhan o ganiatâd dilynol yn yr achos hwn, felly nad oedd angen ei gynnwys yn y DCO gan y darperir ar ei gyfer yn y Rheoliadau. Cynghorodd yr Arolygiaeth mai'r adborth oedd annog yr Ymgeisydd i adolygu'r broses a symleiddio ei ddull, ac nad oedd unrhyw ofyniad gorfodol i'w gynnwys yng ngeiriad y DCO, cyn belled â'i fod wedi dwyn y safbwynt hwnnw'n ystyriol.

Cyf. Rhif 47: Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod cynlluniau tir yn cael eu cadarnhau a'i ddehongliad o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010, i gymryd y lleiaf o dir sydd ei angen ar gyfer adeiladu, a'i rwymedigaeth barhaus y tu hwnt i ganiatáu'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) i ymgysylltu â'r bobl yr effeithir arnynt. Roedd yn bwriadu dod i gytundeb cyhyd ag y bo modd ac ni fyddai'n ceisio cynnwys Erthyglau fel rhoi rhybudd neu ddod i gytundeb yn y DCO ar hyn o bryd. Cynghorodd yr Arolygiaeth fod hwn yn bwynt i'w ystyried. Cydnabu'r Ymgeisydd nad oedd yr holl Atodlenni wedi'u darparu i'w hadolygu gan yr Arolygiaeth Gynllunio.

Cyf. Rhif 50: Cadarnhaodd yr Arolygiaeth fod cynnig yr Ymgeisydd i gynnwys rhifau dalenni gwahanol ar gyfer lluniadau yn ddigonol. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod gwaith yn mynd rhagddo ar gynlluniau gwaith a chynlluniau tir. Holodd ynghylch cyflwyno mesurau lliniaru a chynlluniau ecolegol o fewn y ffin goch ar gynlluniau gwaith ac amlygodd y byddai pob llain yn glir o ran yr hawliau a geisir a graddau'r hawliau hynny. Fodd bynnag, ni fyddai rhif gwaith yn cael ei ddyrannu i rywfaint o'r mesurau lliniaru

tymor hwy oherwydd y gweithgarwch cynnal a chadw cyfyngedig. Cyngorodd yr Arolygiaeth fod angen iddo nodi lle y byddai'r ardaloedd lliniaru a sut byddant yn cael eu cynnwys yn y DCO. Byddai pwerau'r DCO yn cael eu nodi mewn rhestr hawliau a byddai cynlluniau ecolegol yn dangos manylion pellach. Byddai'r Ymgeisydd yn anfon esboniad at yr Arolygiaeth o sut roedd yn bwriadu cofnodi cynlluniau ecolegol yn ei gynlluniau gwaith ar gyfer ystyriaeth bellach.

Hysbysiad a46 a'r camau nesaf

Rhoddodd yr Ymgeisydd wybod bod yr hysbysiad a46 wedi'i gynnwys yn y postdaflitau i ymgynghoreion ymhlith deunydd ymgynghori a42 a'r hysbysiadau a48. Cyngorodd fod yr hysbysiad a'r dogfennau a46 wedi'u hanfon yn uniongyrchol at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn hytrach nag at yr Arolygiaeth, ac nad oedd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wedi gallu dod o hyd i gopi ohonynt.

Cydnabu'r Arolygiaeth hyn, fodd bynnag, nid oedd yn gallu cynnig unrhyw gyngor o ran p'un a ddylai'r Ymgeisydd gymryd camau pellach mewn perthynas â'r mater hwn.

Roedd yr Ymgeisydd wedi ystyried ei safbwynt yn ofalus a chrybwyllodd ei fod wedi cydymffurfio â'r gofyniad i gyflenwi'r hysbysiad a46 i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Roedd yr Ymgeisydd o'r farn y trafodwyd yr ymgynghoriad yn ddigonol yng nghyfarfodydd diweddarau blaenorol y prosiect, y cyhoeddwyd nodiadau'r cyfarfod ar eu cyfer, ac nad oedd hyn wedi'i godi gan PINS. Dywedodd y bu'r ymgynghoriad yn un llawn a helaeth, yn mynd y tu hwnt i'r cyfnod statudol ac yn defnyddio nifer o ddulliau ag ymgysylltiad da. Roedd yn cydnabod yr arfer o anfon yr hysbysiad at yr Arolygiaeth ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a'r ffaith y byddai'r Arolygiaeth yn cyhoeddi'r hysbysiad a chydabyddiaeth, ac nad oedd hyn wedi digwydd. Nid oedd o'r farn bod hyn wedi niweidio unrhyw un. Roedd yn bwriadu amlinellu ei safbwynt a'i gamau gweithredu yn yr Adroddiad Ymgynghori.

Rhaglen hyd at gyhoeddi

Roedd yr Ymgeisydd yn cwblhau dogfennau'r cais ac yn ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ar y Cynlluniau Tir. Roedd yn disgwyl dyddiad cyflwyno ychydig yn hwyrach yng nghanol mis Ebrill 2022. Roedd yn ystyried pa bryd i gyflwyno ei gais am Drwydded Forol (ML) i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o ran sut byddai hyn yn alinio â'r broses o wneud cais am DCO. Cyngorodd yr Arolygiaeth y dylai'r Ymgeisydd egluro statws y Drwydded Forol yn y llythyr esboniadol wrth gyflwyno'r cais am DCO.

Amserlenni cyn-Archwilio

Cyngorodd yr Arolygiaeth y byddai'r amserlenni cyn-Archwilio tua thri i bedwar mis, yn nodweddiadol. Fodd bynnag, byddai unrhyw gyngor a51 a roddir adeg Derbyn y cais ac unrhyw ddogfennau cyfredol sydd eu hangen yn effeithio ar hyn. Cadarnhaodd na fyddai'n ceisio ymestyn y cyfnod cyn-Archwilio yn ddiangen, ond na ellid cadarnhau'r amserlenni.

Cyngorodd yr Arolygiaeth y byddai nifer yr Arolygwyr a fyddai'n ffurfio'r Awdurdod Archwilio (AA) yn cael ei phennu maes o law, gan ystyried y canfyddiadau adeg Derbyn y cais a'r materion a godir mewn Sylwadau Perthnasol. Mae'r AA yn debygol o gynnwys panel yn hytrach nag un Arolygydd.

Diweddariad ar leoliadau'r Archwiliad

Yn sgil y llywodraeth yn llacio'r cyfyngiadau yn ddiweddar, byddai digwyddiadau cyfunol yn cael eu ystyried fesul achos gan yr AA a benodir. Byddai unrhyw ddigwyddiadau wyneb-yn-wyneb yn cynnwys elfen rithiol, gan y bu hyn yn fuddiol o ran cynhwysiant. Byddai'n ddefnyddiol nodi lleoliadau lleol ar gyfer Gwrandawiadau Llawr Agored; mae gwrandawiadau sy'n cynnwys awdurdodau lleol neu gyrff technegol/partion statudol yn fwy tebygol o fod mewn lleoliad canolog.

Diweddariad gan yr Arolygiaeth

Roedd diweddariadau ar ddod i [Nodyn Cyngor 6](#) a [Nodyn Cyngor 8.4](#) i gadarnhau'r defnydd o hyperddolenni mewn cyflwyniadau. Byddai dolenni diogel (er enghraifft i wefannau'r llywodraeth) yn cael eu derbyn, ond byddai unrhyw ddolenni i wefannau trydydd parti yn cael eu dileu oherwydd GDPR. Byddai'r nodiadau cyngor wedi'u diweddarau yn rhoi eglurhad pellach.

Unrhyw fater arall

Amlygodd yr Arolygiaeth newid i'r dull ar gyfer cyhoeddi dogfennau cyfrinachol. Dim ond rhannau cyfrinachol o adroddiad (e.e. data sy'n nodi setiau moch daear yn benodol) fyddai'n cael eu dileu. Cynghorodd fod gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldeb i osgoi cyhoeddi gwybodaeth amgylcheddol a all achosi niwed i nodweddion ecolegol sensitif neu fregus. Dylai data penodol o arolygon ac asesiadau yn ymwneud â phresenoldeb a lleoliadau rhywogaethau fel moch daear, adar a phlanhigion prin a all arwain at aflonyddwch, difrod, erledigaeth neu gam-fanteisio'n fasnachol o ganlyniad i gyhoeddi'r wybodaeth honno gael ei roi yn y DA mewn atodiad cyfrinachol. Dylai'r holl wybodaeth arall o asesiadau gael ei chynnwys mewn pennod yn y DA, yn ôl yr arfer, ynghyd â thestun dalfan yn esbonio bod atodiad cyfrinachol wedi'i gyflwyno i'r Arolygiaeth ac y gallai fod ar gael ar gais.

Byddai'r Ymgeisydd yn cadarnhau'r dyddiad cyflwyno arfaethedig cyn gynted ag y bo modd. Roedd yn ymwybodol o'r broses ar gyfer rhoi gwybod i Awdurdodau Cynllunio Lleol am gyflwyno'r cais.

Rhoddodd yr Arolygiaeth wybod, ar ôl penodi'r AA, y byddai'n rhoi cymaint â phosibl o rybudd pe byddai angen copi papur o ddogfennau penodol ar yr AA.

Roedd yr Ymgeisydd yn ystyried ei opsiynau o ran pa bryd i gyhoeddi dogfennau'r cais. Amlygodd yr Arolygiaeth, pe byddai'n dewis eu cyhoeddi'n gynharach, y byddai angen i'r dogfennau gael eu paratoi i'w cyhoeddi, ac felly y byddai'n debygol y byddant yn cael eu cyhoeddi yn ystod hanner olaf y cyfnod Derbyn.

Cadarnhaodd yr Arolygiaeth y byddai'n cyhoeddi llythyrau paratoadol yn cynnwys gwybodaeth am sut i baratoi i gyflwyno'r cais ac yn gofyn am y ffi berthnasol ar gyfer y cam Derbyn. Amlygodd hefyd ei fod yn ofynnol cyflwyno *Shapefile* 10 niwrnod cyn cyflwyno'r cais, ond dim ond wedi i'r ffin goch gael ei chadarnhau.

Oherwydd yr amserlenni ar gyfer cyflwyno, roedd cyfarfod diweddarau arall ar gyfer y prosiect yn annhebygol, a chytunodd y ddau barti y gellid codi unrhyw ymholiadau pellach drwy alwadau ffôn.

Byddai'r Ymgeisydd yn anfon neges e-bost brawf yn ymwneud â rhannu ffeiliau cyn cyflwyno'r cais.



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Meeting note

Project name	Awel y Môr Offshore Wind Farm
File reference	EN010112
Status	Final
Author	The Planning Inspectorate
Date	2 March 2022
Meeting with	Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited
Venue	Microsoft Teams
Meeting objectives	Project update meeting
Circulation	All attendees

Summary of key points discussed and advice given

The Planning Inspectorate (the Inspectorate) advised that a note of the meeting would be taken and published on its website in accordance with section 51 of the Planning Act 2008 (the PA2008). Any advice given under section 51 would not constitute legal advice upon which applicants (or others) could rely.

Draft documents and The Inspectorate's response – Q&A/ Points of Detail

The Applicant supplied the Inspectorate with a suite of draft documents for review, prior to the submission of the application. The Applicant raised queries regarding specific points of draft document feedback received from the Inspectorate, which are included in an Annex to this meeting note.

Ref No. 5: The s42 consultee list would be redacted and the Applicant queried how the Inspectorate checked the list at acceptance. The Inspectorate highlighted the requirement was on the Applicant to ensure that they had completed the check before submission. The Inspectorate could request an unredacted list if any concerns were identified during the acceptance checks.

The Applicant informed the Inspectorate that a targeted consultation was carried out from 1 February 2022 to 2 March 2022 as a result of changes to the Order Limits, in relation to new proposals for a temporary construction compound at the landfall and ways of access. Technical studies and stakeholder engagement were ongoing. Only one construction compound would be selected for the final construction. There were additional land pockets along the cable route, refinement to the cable route and additional areas for mitigation. The consultation included drop-in sessions, mailouts, newsletters and local councillor briefings. The Applicant advised the details and responses would be included in the Consultation Report. It stated Order Limit changes did not materially alter any assessments, conclusions or material within the Preliminary Environmental Information Report (PEIR).

Ref No. 16: The Applicant confirmed it would be allocating unique identifiers to each consultee and a table containing point-by-point feedback and action taken would sit within an annex to the Consultation Report, with a narrative to the overall approach within the body of the report.

Ref No. 24: The Applicant confirmed it would not be taking a different approach to compulsory acquisition for the onshore elements from other offshore wind farms in that in general rights would be sought to enter land and install the cables with specified permanent rights as required.

Ref No. 30: The Applicant noted the developed practice and had been involved with the Thurrock Flexible Generation Plant Development Consent Order (DCO) which contained some useful wording.

Ref No. 42: The Applicant would provide a summary of mitigation as part of the application and queried how this would fit in to the DCO and Explanatory Memorandum (EM). The Inspectorate advised all documentation should be cross-referenced, and a table of mitigation should be provided in the Environmental Statement (ES). The EM should clarify how the mitigation measures relied on in the ES and mitigation table are secured in the DCO requirements. The Applicant confirmed the EM would explain the rationale for requirements.

Ref No. 44: The Applicant advised that the Local Planning Authority had reviewed discharge requirements but it had not specifically agreed to assume the discharging role. The Inspectorate requested any update on the Local Authority position on this matter within the application.

Ref No. 45: The Applicant's interpretation of the Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2017 was that the discharge of DCO requirements was part of a subsequent consent in this case, therefore it was not required to be written into the DCO as it was provided for in the Regulations. The Inspectorate advised the feedback was to encourage the Applicant to review the process and rationalise its approach, there was no obligatory requirement to include this in the DCO wording so long as it taken that view advisedly.

Ref No. 47: The Applicant confirmed that Land plans were being finalised and its interpretation of the Infrastructure Planning (Compulsory Acquisition) Regulations 2010, to only take the minimum land necessary for construction, and its continued obligation past the point of the Development Consent Order (DCO) being granted to engage with affected persons. It intended to reach agreement as far as possible and would not be looking to include Articles such as the giving notice or reaching agreement within the DCO at this stage. The Inspectorate advised it was a point for consideration. The Applicant acknowledged not all Schedules had been provided for review by the Planning Inspectorate.

Ref No. 50: The Inspectorate confirmed the Applicant's proposal of including different sheet numbers for drawings would be sufficient. The Applicant confirmed work was ongoing on work plans and land plans. It queried the presentation of mitigation and ecological plans within the red line boundary on work plans and highlighted that each plot would be clear in terms of rights sought and what those rights extend to. However, some longer-term mitigation would not be allocated a work number due to the limited maintenance activity. The Inspectorate advised it needed to identify where mitigation

areas were going to be and how they would be covered in the DCO. The DCO powers would be specified in a schedule of rights and ecological plans would show further detail. The Applicant would send the Inspectorate an explanation of how it intended to record ecological plans within its work plans for further consideration.

S46 Notice and next steps

The Applicant advised that the s46 notice was included within the mail outs to consultees amongst s42 consultation material and s48 notices. It advised that the s46 notice and documents were sent directly to SoS BEIS rather than the Inspectorate, and that the SoS BEIS had been unable to locate a copy.

The Inspectorate acknowledged this however it could not provide any advice as to whether the Applicant should take further steps on this matter.

The Applicant had carefully considered its position and stated it had complied with the requirement to supply the s46 notice to the SoS BEIS. The Applicant considered that the consultation was adequately discussed at previous project update meetings, the meeting notes for which were published, and this had not been raised by PINS. It said the consultation had been full and extensive, going beyond the statutory period, using multiple channels with good engagement. It acknowledged the practice of issuing the notice to the Inspectorate on behalf of the SoS BEIS, and the fact that the Inspectorate would publish the Notice and an acknowledgement, which had not taken place. It did not consider that anyone had been prejudiced by this. It intended to set out its position and actions within the Consultation Report.

Programme to submission

The Applicant was finalising application documentation and undertaking due diligence on Land Plans. It anticipated a slightly later submission date in mid-April 2022. It was considering when to submit its Marine Licence (ML) application to Natural Resources Wales (NRW), in light of how this would align with the DCO application process. The Inspectorate advised the Applicant to clarify the status of the ML in the covering letter when submitting the DCO application.

Pre-Examination timeframes

The Inspectorate advised timeframes for Pre-Examination would typically be three to four months. However, it would be affected by any s51 advice issued at Acceptance and any updated documentation required. It confirmed it would not seek to unnecessarily prolong the Pre-Examination period, but timescales could not be confirmed.

The Inspectorate advised that the number of Inspectors comprising the Examining Authority (ExA) would be determined in due course, considering the findings at Acceptance and issues raised within Relevant Representations. The ExA is likely to consist of a panel, rather than single Inspector.

Examination venues update

In light of recent government restrictions being lifted, blended events would be considered on a case-by-case basis by the appointed ExA. Any in-person events would have a virtual element as this has been beneficial for inclusivity. The identification of local venues for Open Floor Hearings would be useful, hearings involving local authorities or technical bodies/ statutory parties are more likely to be central in locality.

Update from the Inspectorate

There were forthcoming updates to [Advice Note 6](#) and [Advice Note 8.4](#) to clarify the use of hyperlinks in submissions. Secure links (for example to government websites) would be accepted but any links to third party websites would be redacted due to GDPR. The updated advice notes would provide further clarity.

AOB

The Inspectorate highlighted a change to the approach for publication of confidential documentation. Only confidential sections of a report (E.g. data that specifically identified badger setts) would be redacted. It advised that public bodies have a responsibility to avoid releasing environmental information that could bring about harm to sensitive or vulnerable ecological features. Specific survey and assessment data relating to the presence and locations of species such as badgers, rare birds and plants that could be subject to disturbance, damage, persecution or commercial exploitation resulting from publication of the information, should be provided in the ES as a confidential annex. All other assessment information should be included in an ES chapter, as normal, with a placeholder explaining that a confidential annex has been submitted to the Inspectorate and may be made available subject to request.

The Applicant would confirm the intended submission date as soon as possible. It was aware of the process for notifying Local Planning Authorities of submission.

The Inspectorate advised that following the appointment of the ExA it would provide as much notice as possible if the ExA required specific documents in hard copy.

The Applicant was considering its options for when to publish application documents. The Inspectorate highlighted that if it opted for earlier publication, documents would need to be prepared for publication and therefore they would likely be published in the latter half of the Acceptance period.

The Inspectorate confirmed it would issue warm-up letters with information about how to prepare for submission and to request the relevant fee for the Acceptance stage. It also highlighted the requirement to submit a shapefile 10 days before submission, but only once the red line boundary had been finalised.

Due to the timeframes for submission, another project update meeting was unlikely, both parties agreed any queries could be raised via 'phone calls.

The Applicant would send a test email in relation to file sharing, in advance of submission.